**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

23 Gorffennaf 2019

**Rheoliadau'r Amgylchedd (Swyddogaethau Deddfwriaethol o Gyfarwyddebau) (Ymadael â'r UE) 2019**

Annwyl Mick,

Diolch am eich llythyr ynghylch Rheoliadau'r Amgylchedd (Swyddogaethau Deddfwriaethol o Gyfarwyddebau) (Ymadael â'r UE) 2019 (Rheoliadau 2019).

Rwy'n nodi eich pryderon ynghylch y ffaith nad yw'r Datganiad Ysgrifenedig yn ddigon penodol i wybod pa effaith allai'r Rheoliadau eu cael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Rwy'n gobeithio felly y bydd y dadansoddiad a nodir o gymorth ichi.

O ran darpariaethau y Strategaeth Forol, fel a nodir yn y Datganiad Ysgrifenedig, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru rywfaint o gymhwysedd deddfwriaethol o fewn y maes morol yng Nghymru, ar wahân i gymalau cadw megis llongau, olew a nwy. O ganlyniad, cyn gwneud y rheoliadau o dan Rhan 6 newydd Rheoliadau y Strategaeth Forol 2010, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol sicrhau cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer rheoliadau sy'n berthnasol i Gymru (fel a ddiffinnir yn adran 158(1) Deddf Llywodraeth Cymru 2006). Mae'r swyddogaethau a drosglwyddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Pe bai'r Cynulliad yn cyflwyno Bil yn y dyfodol i geisio dileu neu addasu'r swyddogaethau hyn, gallai hynny olygu y bydd gofyn ymgynghori â Llywodraeth y DU.

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol o ran ansawdd yr aer, dŵr a sŵn amgylcheddol, yn amodol ar y cymalau cadw yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (er enghraifft, Adran C15 (dŵr a carthffosiaeth)). Nid oes unrhyw effeithiau penodol o ganlyniad i'r Offeryn Statudol hwn ar y cymhwysedd deddfwriaethol o fewn y meysydd hyn, ar wahân i'r materion a nodir yn y datganiad ysgrifenedig sy'n

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gysylltiedig â defnyddio cyfyngiadau Atodlen 7B ar gyfer swyddogaethau posibl sy'n cydredeg.

Gallaf gadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Swyddfa Cymru i fynd i'r afael â chymhwysedd deddfwriaethol nad oes modd ei ragweld sy'n deillio o'r pwerau sy'n cydredeg a grëwyd yn ystod y rhaglen o gywiro Gorchmynion Statudol wrth ymadael â'r UE. Mae Swyddfa Cymru yn cytuno bod angen datrys y mater hwn a rydym yn cydweithio â hwy ar fanylion Gorchymyn s109 fydd yn mynd i'r afael â hyn.

Byddaf yn eich hysbysu o'r datblygiadau.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd